- Personalised assessments are taken on-line and are adaptive, meaning that questions are selected based on the responses to previous questions. This provides a tailored assessment experience for each learner and will help all learners develop their skills through understanding what they can do, the things they may need to work on, and their next steps.
- The assessments provide information on the skills of individual learners, groups and whole classes.
- There is no set time of year or 'assessment window' for personalised assessments, the timing is decided by the school.
- Learners can take the assessments in small or large groups, depending on the school's preferences and facilities.
- Learners must do the assessments once during the academic year. The school also has the option to use the assessment once more during the academic year.

CANLLAWIAU ASESIADAU

Nod yr asesiadau ar-lein yw darganfod cryfderau plant a meysydd i'w gwella er mwyn i'w hathrawon allu eu helpu i ddatblygu eu sgiliau.

Ar ôl i'ch plentyn gwblhau asesiad personol, bydd ei athro/athrawes yn gallu gweld adborth ar ei sgiliau a'i gynnydd sy'n helpu'r athro/athrawes i gynllunio'r camau nesaf ar gyfer addysgu eich plentyn.

Bydd yr ysgol yn ystyried yr amseriad a'r dulliau mwyaf priodol ar gyfer rhannu gwybodaeth am sgiliau darllen a rhifedd dysgwyr, gan gynnwys yr adborth o asesiadau personol.

- Gwneir yr asesiadau personol ar-lein ac maent yn addasol, sy'n golygu y caiff y cwestiynau eu dewis ar sail ymateb dysgwr i'r cwestiynau blaenorol. Mae hyn yn cynnig profiad asesu sydd wedi'i deilwra ar gyfer pob dysgwr a bydd yn helpu pob dysgwr i ddatblygu eu sgiliau drwy ddeall yr hyn y gallant ei wneud, yr hyn y mae angen iddynt ei wella, a'u camau nesaf.
- Mae'r asesiadau yn rhoi gwybodaeth am sgiliau dysgwyr unigol, grwpiau a dosbarthiadau cyfan.
- Nid oes unrhyw adeg benodol o'r flwyddyn wedi'i phennu ar gyfer asesiadau personol na 'fffenest asesu', mae amseriad yn cael ei benderfynu gan yr ysgol.
- Gall y dysgwyr sefyll yr asesiadau naill ai mewn grwpiau bach neu grwpiau mawr, yn dibynnu ar ddewisiadau a chyfleusterau'r ysgol.
- Mae rhaid i ddysgwyr sefyll yr asesiadau unwaith yn ystod y flwyddyn academaidd. Gall yr ysgol hefyd ddefnyddio'r asesiad unwaith yn rhagor yn ystod y flwyddyn academaidd.

IECHYD A DIOGELWCH

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu polisi Iechyd a Diogelwch a argymhellwyd gan yr Awdurdod Addysg. Mae Iechyd a Diogelwch yn greiddiol bwysig i ni ac atebwn y gofynion drwy lunio asesiadau risg a sicrhau fod pob ymwelydd yn galw yn swyddfa'r ysgol wrth gyrraedd ac yn gwisgo bathodynau. Ceir clo digidol ar y prif fynedfeydd.

- Dylai disgyblion barchu rheolau Iechyd a Diogelwch yr ysgol bob amser.
- Cynhelir Dril Tân yn rheolaidd a chofnodir hynny yn y llyfrynau perthnasol.
- Cyfrifoldeb y plentyn yw ei eiddo personol.
- Dylid marcio popeth – dillad, bagiau yn glir gydag enw'r disgybl er mwyn gallu eu hadnabod.

Ceir copi llawn o'r polisi hwn yn yr ysgol.

IECHYD A DIOGELWCH YN Y MAES PARCIO

Hoffem apelio arnoch i gymryd pob gofal wrth ddanfôn a nôl eich plant o'r ysgol gan fod cryn brysurddeb tu allan i brif fynedfa'r ysgol ar ddechrau a therfyn y diwrnod ysgol.

Gyrwyr Ceir:

- Cofiwch yrru yn araf a gofalus.
- Cofiwch barcio yn y llefydd priodol. Mae'r llefydd yn gyfyng felly cymerwch ofal.
- Cymerwch ofal wrth godi a nôl eich plant o'r ysgol.
-

Cerddwyr

- Cadwch at y manau diogel gan edrych ar ôl eich plant drwy'r amser.
- Mae hi'n anodd gweld plant bach tu ôl i'r ceir felly byddwch yn ofalus.
- Sylweddolwn fod parcio yn gallu creu problemau, felly apeliwn arnoch i rannu ceir lle bod hynny'n ymarferol.

HEALTH AND SAFETY

The school has adopted a Health and Safety policy recommended by the Education Authority. Health and Safety is of crucial importance to us and we comply with requirements through preparing risk assessments and ensuring that every visitor report to the school office on arrival and wears a visitor badge. Digital locks have been installed on the main entrances.

- Pupils should at all times, respect the school's Health and Safety regulations.
- Fire Drills are regularly held and that is recorded in the relevant booklets.
- His/her personal property is the child's responsibility.
- The pupil's name should be clearly labelled on all items – clothing, bags for identification purposes.

A full copy of this policy is available at the school.

HEALTH AND SAFETY IN THE CAR PARK

May we appeal to you to show caution when escorting and collecting your children from school, as outside the main entrance to the school is quite busy at the start and end of the school day.

Car Drivers:

- Drive slowly and carefully at all times!
- Park in the appropriate places. Parking spaces are limited. Take care!
- Take care whilst dropping off and picking up your children.

Pedestrians:

- Keep to the paths and supervise your children all the time.
- It is difficult to spot small children behind the cars so please take extra care.
- We recognise that parking can pose problems, therefore, we appeal to you to share cars whenever it is practical to do so.

Y DREFN GWYNO

Crynodeb o weithdrefnau Delio Gyda Chwynion Cyffredinol yr ysgol

Mae'r Corff Llywodraethol wedi mabwysiadu polisi ynglŷn â'r drefn i'w dilyn pan dderbynnir cwynion yn gysylltiedig â'r ysgol.

Ym mhob achos dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gŵyn gyda'r Pennaeth yn y lle cyntaf, neu gysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr os yw'r gŵyn am y Pennaeth.

Pwysleisir, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Pennaeth. Hwn yw'r cam cyntaf, a bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gŵyn yn ffurfiol mewn achosion eithriadol. Os nad ydych yn fodlon yn dilyn trafodaeth â'r Pennaeth a chyfnod rhesymol i ddelio a'r anghydfod, yna cynghorir chwi i gysylltu â Chadeirydd y Corff Llywodraethol.

COMPLAINTS PROCEDURE

Summary of procedures for Handling School General Complaints

The Governing Body has adopted a policy on the procedures to be followed when complaints are received relating to the school.

In all cases, contact should be made with the school in the first instance to make an appointment to discuss any complaint with the Headteacher, or contact the Chair of Governors if the complaint is about the Headteacher.

It is emphasised, that many complaints can be dealt with quickly and effectively by informal consideration based on discussions with the Headteacher. This is the first step, and the Governing Body would expect that this step has been completed before presenting the complaint formally in exceptional cases. If you are not satisfied after discussion with the Headteacher and reasonable period to deal with the dispute, then you are advised to contact the Chair of the Governing Body.

ADDYSG CYDBERTHYNAS A RHYWIOLDEB (ACRH)

Mae ein cwricwlwm ACRh yn cael ei gyflwyno drwy themâu traws cwricwlaidd ac wedi ei gysylltu o fewn y chwe Maes Dysgu a Phrofiad fel yn briodol. Mae hyn yn caniatáu bod dysgwyr yn gwneud cysylltiad gyda beth a ddysgir yn ACRh a'r cwricwlwm ehangach, deall persbectif a dylanwadau hanesyddol, diwylliannol, daearyddol, corfforol, gwleidyddol, cymdeithasol a thechnolegol.

Mae cynnwys mandadol y Cod ACRh wedi ei osod o fewn tri llinyn dysgu bras cysylltiol:

1. Cydberthnasau a hunaniaeth – Mae'r llinyn hwn yn canolbwyntio ar:

- yr amrywiaeth o gydberthnasau y mae pobl yn eu datblygu drwy gydol eu bywydau
 - sut y gall ein cydberthnasau a'n rhywioldeb lywio ein hunaniaeth
- pwysigrwydd hawliau dynol wrth sicrhau cydberthnasau iach, diogel a boddhaus mewn cymdeithas gynhwysol.

2. Iechyd rhywiol a lles – mae'r llinyn hwn yn canolbwyntio ar:

- dysgu am y ffordd y mae pethau byw yn tyfu, yn atgenneddlu ac yn mynd drwy gylchred bywyd
- datblygu dealltwriaeth o'r corff dynol, gan gynnwys teimladau pobl am eu cyrff a'r ffordd y gall y teimladau hyn gael eu cynrychioli
 - y materion iechyd sy'n gysylltiedig â chydberthnasau a rhywioldeb
 - dealltwriaeth o'r ffordd y mae rhywioldeb ac iechyd rhywiol yn effeithio ar ein lles.

3. Grymuso, diogelwch a pharch – mae'r llinyn hwn yn canolbwyntio ar:

- hawliau dysgwyr i ddiogelwch ac amddiffyniad a rhyddid rhag niwed a gwahaniaethu
 - sut a ble i gael gwybodaeth, help a chymorth
 - sut i gefnogi ac eirioli dros hawliau, triniaeth deg a pharch i bawb.

Mae pob llinyn addysgu a dysgu wedi eu rhannu'n dri chynnod datblygu bras fel a ganlyn:

- Cynnod 1: o 3 oed
- Cynnod 2: o 7 oed
- Cynnod 3: o 11 oed



Hawl i eithrio

Mae ACRh yn ofyniad mandadol o fewn y Cwricwlwm i Gymru 2022 i bob dysgwr o oedran 3 i 16. Mae'r Cod yn nodi nad oes hawl i ddysgwyr gael eu heithrio o unrhyw ran o ACRh.

Amgylchedd dysgu diogel

Bydd yr ysgol yn sicrhau amgylchedd addysgol diogel ar gyfer athrawon, staff a dysgwyr drwy sefydlu a chytuno ar gytundebau/rheolau dosbarth yr ysgol.

Amddiffyn Plant

Pe bai disgybl yn sôn ei f/bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol dylid cyfrif y mater yn fater amddiffyn plant, a dilyn gweithdrefnau'r ysgol yn ddi-oed. Gweler y Polisi llawn.

RELATIONSHIPS AND SEXUALITY EDUCATION (RSE)

Our RSE curriculum will be taught through cross-curricular themes and it will be interlinked within all Areas of Learning and Experience as appropriate. This will allow learners to make connections between their learning in RSE and the wider curriculum, understanding historical, cultural, geographic, physical, political, social and technological perspectives and influences on RSE issues.

The mandatory content of the RSE Code is set within three broad and interlinked learning strands, namely:

1. Relationships and identity – this strand focuses on:

- the range of relationships that human beings have throughout their lives
 - how identity can be shaped by our relationships and sexuality
- the importance of human rights in securing healthy, safe and fulfilling relationships in an inclusive society.

2. Sexual health and well-being – this strand focuses on:

- learning about how living things grow, reproduce and have a life cycle
- developing an understanding of the human body, including people's feelings about their bodies and how these can be represented
 - the health issues related to relationships and sexuality
- an understanding of how sexuality and sexual health affects our well-being.

3. Empowerment, safety and respect – this strand focuses on:

- learners' rights to safety and protection and freedom from harm and discrimination
 - how and where to seek information, help and support
- how to support and advocate for the rights, fair treatment and respect of all.

The learning strands of teaching and learning are set in three broad developmental phases as follows:

- Phase 1: from age 3
- Phase 2: from age 7
- Phase 3: from age 11



Right to Withdraw

RSE is a mandatory requirement in the Curriculum for Wales 2022 for all learners from age 3 to 16 years. It is specified within the RSE Code that there is no right to withdraw learners from any part of RSE.

Safe learning environment

The school will ensure a safe learning environment for teachers, staff and learners by establishing and agreeing to the school's class agreements/rules.

Child Protection

If a pupil mentions that he/she participates in sexual activities, the issue should be regarded as a child protection matter and the school procedures be followed.

ADDYSG GREFYDDOL A CHYD ADDOLI

Nid yw'r ysgol hon yn dal cysylltiad uniongyrchol a ffurfiol ag unrhyw enwad crefyddol.

Y ffydd Gristnogol yw sail cwrs Addysg Grefyddol yr ysgol, ond cyfeirir at grefyddau mawr y byd.

Amcanion

Dylai Addysg Grefyddol fod yn ddylanwad positif yn natblygiad pob disgybl – yn ei gynorthwyo i ddatblygu ei werthoedd ac i fagu ymwybyddiaeth o'i gyfrifoldebau cymdeithasol:

- fewn ei deulu;
- gyda'i gyfoedion;
- tuag at gyd-ddyn o wahanol gefndir, lliw, cred a hil.

Rhydd Addysg Grefyddol gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o ddimensiwn crefyddol bywyd; sut y caiff ei fynegi gan unigolion a chymunedau a sut mae'n effeithio ar gymdeithas a'r gwerthoedd hynny sy'n cael eu harddel ganddi.

Fe'ch atgoffir o'r hawl i dynnu eich plentyn o Addysg Grefyddol a chydaddoli. Mewn achos o'r fath, bydd y disgybl yn cael cyfle i weithio ar brosiectau unigol.



RELIGIOUS EDUCATION AND COLLECTIVE WORSHIP

This school does not have any direct and formal denominational links. Religious Education syllabus at this school is based on the Christian faith, but pupils are made aware of key religions from around the world.

Aims

Religious Education should be a positive influence in every pupil's development – to assist him/her to develop his/her values and develop awareness of his/her social responsibilities:

- within his/her family;
- with his/her peer-group;
- towards his/her fellow man from various backgrounds, skin colour, belief and race.

Religious Education provides opportunities for pupils to develop an understanding and appreciation of the religious dimension of life; how it is expressed by individuals and communities and how it impacts the community and its cherished values.

You are reminded of your right to withdraw your child from Religious Education and collective worship. In such an instance, the pupil will have an opportunity to work on individual projects.

DEFNYDDIO'R GYMRAEG A'R SIARTER IAITH

Nôd syml y Siarter Iaith yw arwain at gynydd yn nefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg gan eu hysbrydoli i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd. Mae'r Siarter Iaith yn gofyn am gyfranogiad gan bob aelod o gymuned yr ysgol - y cyngor ysgol, y disgyblion, y gweithlu, y rhieni, y llywodraethwyr a'r gymuned ehangach er mwyn sicrhau perchnogaeth lawn ohoni.

Mae Ysgol Craig y Deryn a Chyngor Gwynedd yn sylweddoli pa mor bwysig yw'r Gymraeg a'r Saesneg i ddyfodol ein plant ac yn cefnogi'r egwyddor hon i roi'r fantais fwyaf i'n disgyblion - yn addysgol, yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn ddiwylliannol.

Amcan Polisi Iaith Cyngor Gwynedd yw sicrhau bod pob plentyn yn gadael yr ysgol gynradd yn gwbl ddwyieithog. Mae pob ysgol dan ofal y sir wedi ymrwymo i'r polisi hwn er mwyn sicrhau bod pawb yn elwa o allu siarad dwy iaith yn rhugl.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweld yr angen am weithlu dwyieithog, medrus. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn sgil y mae cyflogwr yn chwilio amdani.

Trwy gefnogaeth yr ysgol, y cartref, y llywodraethwyr a'r gymuned gallwn gyrraedd y nod o fagu cenhedlaeth o weithwyr y dyfodol sy'n hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae Awdurdod Addysg Gwynedd yn hyrwyddo polisi dwyieithog gyda'r amcan o alluogi disgyblion y Sir i fod yn hyderus yn y ddwy iaith.

Cymraeg, felly yw iaith gyfathrebu'r ysgol ac fe'i defnyddir yng ngweinyddiad dydd i ddydd yr ysgol ac yn y gwasanaethau. Er hyn, ein nod fel ysgol yw sicrhau fod y disgyblion yn rhugl ddwyieithog a'u bod â'r gallu i fynegi eu hunain yn rhwydd ar lafar; yn medru ysgrifennu'n hyderus ac yn medru darllen er mwyn pleser a gwybodaeth yn y ddwy iaith. Gan fod Saesneg yn bwnc craidd y cwricwlwm Cenedlaethol, fe sicrhewr fod lle teilwng i'r maes hwn o fewn amserlenni, nid yn unig fel pwnc, ond hefyd fel cyfrwng dysgu er mwyn sicrhau cydbwysedd ieithyddol erbyn diwedd C.A.2.

@llangrannog1932



AMCANION PENODOL

Disgyblion ieuengaf

Sicrhau, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law. Adeiladu ar y sylfeini a osodwyd i'r Gymraeg drwy'r Cylch Meithrin a chadarnhau a datblygu mamiaith y plentyn o ddysgwr Cymraeg ac ymestyn y plentyn o gartref Cymraeg a Saesneg.

Disgyblion hynaf

Cadarnhau a datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol gan sicrhau fod pob plentyn yn cyflawni ei botensial cyn dechrau ar ei yrfa yn yr Ysgol Uwchradd.

Mae'r athrawon yn darparu'n sensitif ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo o ysgolion lle na wnaed defnydd o'r Gymraeg. Yn ogystal, ceir darpariaeth arbennig ar gyfer y disgyblion hyn mewn Uned Iaith yn Nolgellau. Mae'r disgyblion sydd yn mynychu'r

Uned Iaith yn gwneud cynnydd eithriadol ac yn ddieithriad yn llwyddo i integreiddio'n llawn i fywyd yr ysgol. Mae Ysgol Craig y Deryn yn cyd-weithio'n agos gyda'r Uned hon ac mae gennym berthynas

THE USE OF WELSH AND THE WELSH LANGUAGE CHARTER

The aim of the Welsh Language Charter simply is to lead to an increase in children's social use of the Welsh Language, inspiring them to make full use of Welsh in their everyday lives. The Welsh Language Charter requires the active participation from all members of the school community - the school council, the pupils, the workforce, the parents, the governors and wider community to ensure full ownership of it.

Ysgol Craig y Deryn and Gwynedd Council appreciate how important both the Welsh Language and English Language are to the future of our children and supports this principle to give the maximum benefit to our pupils - educationally, socially, economically and culturally.

Gwynedd Council's language policy objective is to ensure that all children leaving primary school are fully bilingual. All schools under the care of the county are committed to this policy to ensure that everyone benefits from being able to speak two languages fluently.

The Welsh Government recognises the need for a skilled, bilingual workforce. The ability to speak Welsh is a skill that employers are looking for.

Through the support of the school, the home, the governors and the community we can achieve the goal of raising future generations of workers who are confident in Welsh and English. Gwynedd Education Authority promotes bilingual policy with the objective of enabling the county's pupils to be confident in both languages.

The language medium used at the school is therefore Welsh, and it is used in the school's day to day administration and in the services. However, our aim is to ensure that pupils are fluently bilingual and able to fluently verbally express themselves; able to write confidently and read for enjoyment and knowledge in both languages. As English is a core subject in the National Curriculum, it is ensured that this area has pride of place in timetables, not only as a subject but as a learning medium so as to ensure linguistic balance by the end of K.S.2.

SPECIFIC AIMS


Younger pupils

Ensure, through appropriate and sensitive provision and arrangements, that every child receives a firm foundation in Welsh so as to enable him to become fully bilingual in due course. Build on the foundations laid for Welsh through Nursery Education, confirm and develop the mother tongue of the Welsh learner child and provide a challenge for the child from a Welsh and English speaking home.

Older pupils

Reinforce and develop the Welsh and English of every child in all their passive and active aspects, ensuring that every child achieves his potential before commencing his Secondary School career.

The teachers make sensitive provision for those pupils who transfer from schools where Welsh was not used. There is also a special provision for these pupils at a Language Unit at Dolgellau. Those pupils who attend the Language Unit make exceptional progress and succeed to fully re-integrate into school life, without exception. Ysgol Craig y Deryn closely collaborates with this Unit and we have an excellent working relationship.



CANLLAWIAU AMDDIFFYN PLANT GWYNEDD

Mae'r ysgol hon yn gweithredu gofynion statudol mewn perthynas ag Amddiffyn Plant. Swyddog Dynodedig Amddiffyn Plant yw Jennifer Bradbury. Llywodraethwr Dynodedig Amddiffyn Plant yw Beth Lawton. Bydd yr ysgol yn cyfeirio achosion at y Swyddog Lles, Gwasanaethau Cymdeithasol / Heddlu yn unol â'r polisi Amddiffyn Plant.

Diffiniad o gam drin ac esgeuluso plant

Credir ein bod fel ysgol yn deall arwyddocâd y paragraff hwn o'r ddogfen Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan:

"Gall rhywun gam-drin neu esgeuluso plentyn drwy beri niwed iddo, neu drwy fethu gweithredu i atal niwed. Gall plant gael eu cam-drin mewn sefyllfa o fewn y teulu neu o fewn sefydliad, gan y rhai sy'n eu hadnabod, neu yn llai aml, gan rywun dieithr. Gall plentyn neu berson ifanc hyd at 18 oed ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod a bod angen eu hamddiffyn drwy Gynllun Amddiffyn Plant rhyngasiantaethol."

GWYNEDD CHILD PROTECTION GUIDELINES

This school implements the statutory requirements in relation to Child Protection. The Designated Child Protection Officer is Jennifer Bradbury. The Designated Child Protection Governor is Beth Lawton. The school will refer cases to the Welfare Officer, Social Services / Police in accordance with the Child Protection policy.

Definition of child abuse and neglect

We believe that as a school, we understand the significance of this paragraph from the All Wales Child Protection Guidelines document:

"Anybody can abuse or neglect a child through inflicting harm on him, or through failure to act to prevent harm. Children may suffer abuse within a family situation or within an establishment, by somebody who they know, or less often, by a stranger. A child or young person up to 18 years of age, may suffer abuse or negligence and requires protection through an inter-agency Child Protection Scheme"



GWISG YSGOL SCHOOL UNIFORM

Fe anogir y disgyblion i gyd i wisgo gwisg ysgol. Teimlir bod gwisg ysgol yn arwain at feithrin balchder yn yr ysgol ac ymdeimlad o berthyn iddi.
Mae'r wisg ysgol ar werth yn swyddfa'r ysgol.

Credwn mewn ailgylchu ac mae gennym gyflenwad o ddillad ysgol sydd bron yn newydd yn yr ysgol. Croeso i chi eu cael! Os oes gennych ddillad sydd wedi mynd yn rhy fach i'ch plant ac sydd mewn cyflwr da buasem yn falch iawn o'u derbyn er mwyn eu pasio ymlaen.



Crys polo gwyn / White polo shirt

Crys chwys neu cardigan coch / Red sweatshirt or cardigan

Sgert llwyd / Grey skirt

Trowsus du/llwyd / Black/grey trousers

We encourage all pupils to wear school uniform. It is felt that a school uniform leads to a sense of pride in the school and a sense of belonging. The school uniform is on sale from the school office. We believe in recycling and have a supply of school clothing that is almost new, at the school. You are welcome to them! If you have items of clothing that are now too small for the children and in good condition, we would be very glad to receive them.

CODI TÂL AM WEITHGAREDDAU

Mae'r Corff Llywodraethol, yn unol â gofynion Deddf Addysg 1988, yn derbyn na ellir codi tâl am y canlynol:

- mynediad i'r ysgol
- yr addysg a roddir yn ystod oriau'r ysgol
- defnyddiau ac offer ar gyfer gwersi yn ystod oriau ysgol
- gweithgareddau a gynhelir yn ystod oriau ysgol

Trefnir teithiau yn ystod oriau ysgol. Mae gan yr ysgol hawl i ofyn am gyfraniadl tuag at gost o drefnu teithiau a gofyn i asiant allanol i drefnu'r teithiau.

Heb gyfraniadau, mae'n bosibl na ellir cynnal rhaglen lawn o weithgareddau. Awdurdodir y Pennaeth i ofyn am daliadau ar gyfer y canlynol:

- gwersi cerdd unigol
- gweithgareddau a gynhelir y tu allan i oriau'r ysgol yn ôl amodau'r Ddeddf mewn achosion lle achosir difrod i unrhyw ran o adeiladau'r ysgol yn dilyn ymddygiad disgyblion
- pan fydd disgybl yn colli neu'n difrodi llyfrau, cyfarpar neu eiddo sy'n perthyn i'r ysgol, i aelod o staff neu ddisgybl arall
- Mae tâl am wersi offerynnol fel â ganlyn: £60 y tymor (Mae'r ysgol yn rhoi cyfraniadau tuag at blant PYD)

Os gwelwch yn dda, talwch ar lein ar Schoolgateway. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch a Ms Lorraine yn y swyddfa.

CHARGING FOR ACTIVITIES

The Governing Body, in accordance with the requirements of the Education Act 1988, accepts that the following cannot be charged for:

- admission to school
- the education provided during school hours
- materials and equipment for lessons during school hours
- activities that take place during school hours

Trips will be organised during school hours. The school has the right to ask for a contribution towards the cost of organising trips, and ask for an external agent to arrange the trips.

Without contributions, it might not be possible to offer a full programme of activities. The Headteacher is authorised to charge for the following:

- individual music lessons
 - activities that take place outside school hours according to the conditions of the Act
 - in cases where damage is caused to any part of the school buildings after the behaviour of pupils
 - when a pupil loses or damages books, equipment or property belonging to the school, to another member of staff or pupil
 - A charge for instrumental lessons are as follows: £60 per term (The school pays a contribution towards FSM children)
- Please pay online on Schoolgateway. For more information please telephone Ms Lorraine in the office.**

CYNGOR YSGOL

Mae gan Ysgol Craig y Deryn Gyngor Ysgol effeithiol sy'n cyfarfod yn gyson gan ddilyn eu rhaglenni tymhorol.

Mae'r Cyngor Ysgol yn weithgar wrth ymwneud â'r agenda Llais y Plentyn yn ogystal ag e.e yn cyrchu barn eu cyd-ddisgyblion am safon yr addysg.

SCHOOL COUNCIL

Ysgol Craig y Deryn has an effective School Council which meets regularly and follow their termly programmes.

The School Council is actively involved in the agenda of the Voice of the Child as well as for example accessing the views of their peers for the quality of education.



CYMDEITHAS RHINIEN A FFRINDIAU'R YSGOL

Mae cangen gref iawn o Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn bodoli yn yr ysgol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o rieni gweithgar a brwdfrydig. Rydym yn ddiolchgar iawn am bob cymorth a gynigir.

Cynhelir amrywiol weithgareddau i godi arian tuag at gronfa'r ysgol yn ystod y flwyddyn ac rydym yn gwerthfawrogi'n fawr yr holl gefnogaeth mae'r ysgol yn ei dderbyn.

PARENTS AND FRIENDS ASSOCIATION

There is a very strong branch of PTFA at the school, which includes representatives of active and enthusiastic parents and we are very grateful for the help offered.

Various activities are held to raise money for the school fund during the year and we greatly appreciate all the support the school receives.

YSGOL IACH

Mae Ysgol Craig y Deryn yn rhan o gynllun Ysgolion Iach Gwynedd. Mae gennym raglen lawn ac rydym yn annog disgyblion i fwyta'n iach a chadw'n heini.

HEALTHY SCHOOL

Ysgol Craig y Deryn is part of the Gwynedd Healthy Schools initiative. We follow a comprehensive programme. We encourage pupils to eat healthily and keep fit.



CYFLEOEDD CYFARTAL

Prif athroniaeth ac amcanion yr ysgol yw bod gonestrwydd, urddas a gwerth pob unigolyn o'r pwysigrwydd mwyaf. Ymdrechir i roi cyfle cyfartal i bob disgybl ac athro/athrawes ar bob adeg heb wahaniaethu ar sail rhyw, crefydd, lliw, iaith nac anabledd.

DISGYBLION SYDD AG ANABLEDDAU

Mae cynllun yr ysgol yn sicrhau mynediad rhwydd i ddisgyblion a rhieni sydd ag anableddau. Gwneir trefniadau arbennig rhwng yr ysgol a'r cartref pan fo disgybl sydd ag anableddau neu Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cychwyn yn yr ysgol. Cysyllter â'r Pennaeth am ragor o fanylion.

Mae'r ysgol yn sensitif i anghenion disgyblion sydd ag anableddau ac yn gwneud pob ymdrech i'w cynnwys ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol.

EQUAL OPPORTUNITIES

The school's main philosophy and aims are that the honesty, dignity and integrity of every individual are of the utmost importance. We strive to give every every pupil and teacher equal opportunities on all occasions without discrimination on the basis of sex, religion, colour, language or disability.

PUPILS WITH DISABILITIES

The school's layout ensures easy access to pupils and parents with disabilities. Special arrangements are made between school and home when a pupil with disabilities or Additional Learning Needs starts at the school. Please contact the Headteacher for more information.

The school is sensitive towards the need of pupils with disabilities and makes every effort to ensure that they are included in all aspects of Ysgol Craig y Deryn's life and school work.

YSGOL CRAIG Y DERYN - DEDDF DIOGELU DATA

Hysbysiad Preifatrwydd - Sut ydym yn defnyddio gwybodaeth am ddisgyblion

Mae'r categorïau gwybodaeth am ddisgyblion yr ydym yn eu casglu, eu dal a'u rhannu yn cynnwys:

- Gwybodaeth bersonol –megis enw, rhif unigryw disgybl a chyfeiriad
- Nodweddion – megis ethnigrwydd, iaith, cenedligrwydd, gwlad enedigol a chymhwysedd pryd ysgol am ddim
- Gwybodaeth am bresenoldeb – megis nifer y sesiynau a fynychwyd, nifer yr absenoldebau a rhesymau dros absenoldeb
- Gwybodaeth am asesiadau
- Gwybodaeth feddygol berthnasol
- Gwybodaeth am Anghenion Addysgol Arbennig
- Gwybodaeth am waharddiadau/ymddygiad
- Gwybodaeth bersonol am rieni'r disgybl a/neu berthnasau eraill megis enw, manylion cyswllt, perthynas â'r plentyn

Pam yr ydym yn casglu a defnyddio'r wybodaeth hon

- Rydym yn defnyddio data disgybl:
- i gefnogi addysg y disgybl
- i fonitro ac adrodd ar gynnydd y disgybl
- i ddarparu gofal bugeiliol priodol
- i asesu ansawdd ein gwasanaethau
- i gydymffurfio â’r gyfraith ynglŷn â rhannu data
- i rannu data ar gyfer archwiliadau statudol a dibenion archwilio

Gyda phwy yr ydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion

Rydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion yn rheolaidd gyda:

- ysgolion a fynychwyd gan y disgyblion ar ôl ein gadael
- ein hawdurdod addysg lleol – Cyngor Gwynedd

Asiantaethau a gomisiynir gennym i ddarparu gwasanaethau ar ein rhan :

- Llywodraeth Cynulliad Cymru (drwy HWB)
- Byrddau Arholi
- Colegau Addysg Bellach
- Prifysgol Bangor, a sefydliadau eraill addysg Uwch yn Nghymru a Prydain fawr a phrifysgolion sydd yn rhan o rhaglen SEREN Llywodraeth Cymru
- Cwmni Cynnal
- Heddlu a Thîm Troseddu'r Ifanc
- Gwasanaethau Iechyd
- Antur Waunfawr (gwaredu deunyddiau cyfrinachol) Gwasnaethau Cymdeithasol

Cwmnïau Perthnasol sy’n hybu gweinyddiaeth a phrofiadau addysg disgyblion

- Urdd Gobaith Cymru
- CAPITA – SIMS
- School Gateway
- ALPs
- INCERTS
- Taith 360
- EVOLVE
- Reading Eggs
- My Maths
- TT Rock Stars

Bydd categorïau pellach yn dod o'ch cofrestr asedau gwybodaeth

Pam yr ydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion

Nid ydym yn rhannu gwybodaeth am ein disgyblion gydag unrhyw un heb ganiatâd, oni bai bod y gyfraith a'n polisïau yn caniatáu i ni wneud hynny. Rydym yn rhannu data am ddisgyblion gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) ar sail statudol. Mae rhannu data yn y modd hwn yn tanategu cyllid yr ysgol a pholisi a monitro cyrhaeddiad addysgol.

Ysgolion a gynhelir:

Mae'n ofynnol i ni rannu gwybodaeth am ein disgyblion gyda'n hawdurdod lleol (ALL) Cyngor Gwynedd a Llywodraeth y Cynulliad dan: Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Disgybl) (Cymru) 2011

Gofynion casglu data:

Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Disgybl) (Cymru) 2011
Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb) (Cymru) 2011

Gofyn am fynediad at eich data personol

Dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gan rieni a disgyblion yr hawl i ofyn am fynediad at y wybodaeth yr ydym yn ei chadw amdanynt. Er mwyn gwneud cais am eich gwybodaeth bersonol, neu ofyn am fynediad at gofnod addysgol eich plentyn, cysylltwch â:

Swyddog Diogelu Data Ysgolion
Cyngor Gwynedd
Stryd y Castell
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae gennych hefyd yr hawl i:

- wrthwynebu i ddata personol gael ei brosesu sy'n debygol o achosi, neu sy'n achosi, niwed neu ofid
- atal unrhyw beth rhag cael ei brosesu er dibenion marchnata uniongyrchol
- gwrthwynebu i benderfyniadau gael eu gwneud gan ddulliau awtomataidd
- cywiro, rhwystro, dileu neu ddinistrio data personol anghywir, mewn amgylchiadau penodol; a
- hawlio iawndal am y niwed a achoswyd o ganlyniad i dorri rheoliadau Diogelu Data
- Os oes gennych bryder ynglŷn â'r modd yr ydym yn casglu neu'n defnyddio eich data personol, gofynnwn i chi nodi eich pryder gyda ni i ddechrau. Fel arall, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd

Gwybodaeth drwy <https://ico.org.uk/concerns/>
Cysylltu

Os hoffech drafod unrhyw beth yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn, cysylltwch â:

Jennifer Bradbury	Louise Jones
Ysgol Craig y Deryn,	Swyddog Diogelu Data Ysgolion
LLANEGRYN,	Cyngor Gwynedd
GWYNEDD.	BANGOR
Louise Jones	GWYNEDD

Privacy Notice - How we use pupil information

The categories of pupil information that we collect, hold and share include:

- Personal information – such as name, unique pupil number and address
- Characteristics – such as ethnicity, language, nationality, country of birth and free school meal eligibility
- Attendance information – such as sessions attended, number of absences and absence reasons
- Assessment information
- Relevant medical information
- Special Education Needs information
- Exclusions/behavioural information
- Personal information about a pupil’s parents and/or other relatives – such as name, contact details, relationship to child

Why we collect and use this information

We use the pupil data:

- to support pupil learning
- to monitor and report on pupil progress
- to provide appropriate pastoral care
- to assess the quality of our services
- to comply with the law regarding data sharing
- to share data for statutory inspections and audit purposes

Who we share pupil information with

We routinely share pupil information with:

- schools that the pupils’ attend after leaving us
- our local education authority – Cyngor Gwynedd – Social, Leisure, Transport, Finance, Youth Services.
- Agencies we commission to deliver services on our behalf:
- Welsh Assembly Government (via HWB)
- Examination Boards
- Further Education Colleges
- Bangor University and other Higher Education institutions in Wales and the UK including Universities participating in the Welsh Government SEREN programme
- Cwmni Cynnal
- Police Force and Youth Offending Team
- Health Boards
- Antur Waunfawr (disposal of confidential materials)
- Social Services

Relevant Companies that promote educational experiences and administration

- Urdd Gobaith Cymru
- CAPITA – SIMS
- School Gateway FFTrust
- ALPs
- INCERTS
- Assesment 360
- EVOLVE
- Reading eggs
- My Maths
- TT Rock Stars

Further categories will come from your information asset register

Why we share pupil information

We do not share information about our pupils with anyone without consent unless the law and our policies allow us to do so.

We share pupils’ data with the Welsh Assembly Government (WAG) on a statutory basis. This data sharing underpins school funding and educational attainment policy and monitoring.

Maintained schools:

We are required to share information about our pupils with our local authority (LA) Cyngor Gwynedd and the Welsh Government under : The Education (Pupil Information) (Wales) Regulations 2011

Data collection requirements:

The Education (Pupil Information) (Wales) Regulations 2011

The Education (School Performance and Absence Targets)(Wales) Regulations 2011

Requesting access to your personal data

Under data protection legislation, parents and pupils have the right to request access to information about them that we hold. To make a request for your personal information, or be given access to your child’s educational record, contact:

Schools Data Protection Officer
Gwynedd Council
Stryd y Castell
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

You also have the right to:

- object to processing of personal data that is likely to cause, or is causing, damage or distress
- prevent processing for the purpose of direct marketing
- object to decisions being taken by automated means
- in certain circumstances, have inaccurate personal data rectified, blocked, erased or destroyed; and
- claim compensation for damages caused by a breach of the Data Protection regulations
- If you have a concern about the way we are collecting or using your personal data, we request that you raise your concern with us in the first instance. Alternatively, you can contact the Information Commissioner’s Office at <https://ico.org.uk/concerns/>

Contact

If you would like to discuss anything in this privacy notice, please contact:

Jennifer Bradbury	Louise Jones
Ysgol Craig y Deryn,	Swyddog Diogelu Data Ysgolion
LLANEGRYN,	Cyngor Gwynedd
GWYNEDD.	BANGOR
GWYNEDD	